# ATODIAD B - YMATEBION GAN GYRFF (GAN GYNNWYS PLEIDIAU GWLEIDYDDOL)

**YMATEB GAN GANGEN Y DE –**
**CYMDEITHAS Y GWEINYDDWYR ETHOLIADOL (AEA)**

**i**

**GANLLAWIAU YMDDIRIEDOLAETH Y BBC AR ETHOLIADAU 2016 A'R REFFERENDWM AR AELODAETH Y DEYRNAS UNEDIG O'R UNDEB EWROPEAIDD**

**SYLWADAU CYFFREDINOL**

Mae Ymddiriedolaeth y BBC wedi lansio dau ymgynghoriad, 'Canllawiau Drafft ar gyfer Etholiadau yn 2016' a 'Chanllawiau Drafft ar gyfer Refferendwm ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd'.

Gobeithir y bydd y canllawiau'n ategu'r canllawiau golygyddol sydd ar waith eisoes yn y BBC ac y byddant yn help i ddiffinio sut y bydd y BBC yn cydymffurfio â'i dyletswydd i sicrhau amhleidioldeb dyladwy yn ystod y cyfnod sy'n arwain at yr etholiadau o amgylch y Deyrnas Unedig yn 2016 a refferendwm yr Undeb Ewropeaidd gan gynnwys y cyfnodau hynny.

Er ein bod yn sicr yn croesawu'r ymgynghoriad, credwn nad yw rolau ein haelodau o reidrwydd yn dod o fewn y canllawiau a'r ffiniau ymarfer y cyfeirir atynt yn y dogfennau ymgynghori.

Wedi dweud hynny, nodwyd, wrth edrych yn fanylach fod y defnydd ailadroddus o eiriau tebyg i amhleidioldeb, annibyniaeth, cywirdeb, barn ddiduedd, seiliedig ar dystiolaeth ac ymagwedd sy'n gyffredinol gytbwys at bob ymgeisydd, plaid a grŵp ymgyrchu wrth gwrs yn cael ei groesawu gan y rheini sydd yn y gymuned etholiadol y gallai peidio â mabwysiadu'r egwyddorion hynny effeithio'n uniongyrchol arnynt.

**ATODIAD B - YMATEBION GAN GYRFF (GAN GYNNWYS PLEIDIAU GWLEIDYDDOL)**

## CANLLAWIAU DRAFFT AR GYFER YR ETHOLIAD

## SYLWADAU CYNGOR CYNULLEIDFA'R ALBAN

### Canllawiau - egwyddorion cyffredinol

Mae'r Cyngor yn cytuno bod yr egwyddorion cyffredinol yn 3.1 yn briodol. Mae'r canllawiau'n nodi ystod eang o ffactorau i'w hystyried wrth wneud penderfyniadau golygyddol ac yn pwysleisio cyd-destun y ddadl ddemocrataidd ehangach. Serch hynny, nododd aelodau:

- Bod y dogfennau, ar y cyfan, i bob golwg yn canolbwyntio ar y sefydliad gwleidyddol swyddogol yn hytrach nag ar adrodd o gymunedau a safleoedd dadlau a thrafod eraill. Mae'r Cyngor yn teimlo y gall hyn fod wedi arwain at rywfaint o'r anfodlonrwydd ar sylw'r BBC i refferendwm yr Alban.
  Dylid rhoi sylw, nid yn unig i farn a pholisïau'r pleidiau ond ystyried hefyd bryderon a blaenoriaethau pleidleiswyr.
  Er ei bod yn amlwg yn synhwyrol roi sylw i'r etholiad cyfatebol blaenorol fel man cychwyn da, dylid cydbwyso hyn â'r prif ddatblygiadau etholiadol yn y tair blynedd diwethaf gan gynnwys y refferendwm ar annibyniaeth a natur ddigynsail canlyniad Etholiad Cyffredinol 2015 yn yr Alban. Byddai hyn yn arbennig o bwysig i raglenni'r rhwydwaith a allai fod yn arafach i sylweddoli bod y dirwedd wleidyddol yn yr Alban yn newid.
  A yw 'sylw' yn cael ei fesur o ran ei hyd yn unig? Ynteu a oes nodweddion eraill y gellid eu nodi sy'n berthnasol i'r sylw? Er mai dulliau mesur meintiol yw'r rhai allweddol i bob golwg, dylai cynhyrchwyr hefyd anelu at sicrhau bod natur y driniaeth a gaiff y gwahanol bleidiau yn gydradd hefyd. Dylid sefydlu'n egwyddor graidd gefnogi disgwrs wleidyddol o sylwedd.

### Pleidiau mwy/llai

- Mae rhai o aelodau'r Cyngor yn teimlo nad yw'r gwahaniaeth rhwng pleidiau "mwy" a "llai" o reidrwydd yn ddigon soffistigedig mewn system amlblaid mewn tirwedd wleidyddol sy'n symud yn gyflym. Rhaid llunio barn unigol ynghylch pob plaid ac fe allai fod yn amhriodol eu gwthio i un o'r ddau gategori.

- Yng nghyd-destun yr Alban, mae diffinio plaid "lai" yn dal i achosi anawsterau ac yn ei adael ei hun yn agored i heriau drwy lywio'r ffeithiau mewn ffordd amgen a'u dehongli drwy bwyso a mesur yn fanwl. Mae'n bosibl darllen perfformiad y Blaid Werdd ac UKIP yn yr Alban mewn gwahanol ffyrdd. Efallai bod rhyw sylwedd yn y ddadl na ddylai'r Blaid Werdd gael ei chategoreiddio'n blaid fach yn yr Alban.

### Polau

- Yng ngoleuni perfformiad gwael polau'r Deyrnas Unedig yn Etholiad Cyffredinol 2015, dylai'r canllawiau ynghylch y rôl y dylai polau ei chwarae mewn adroddiadau fod yn gryfach. Mae dadl ddilys fod adroddiadau'r BBC, ei dadansoddiadau, ei chyfweliadau a'i sylwebaeth yn yr Etholiad Cyffredinol wedi dod o dan ddylanwad ffocws cryf iawn ar yr hyn yr oedd y polau piniwn yn ei awgrymu a'r rheini wedyn wedi'u profi'n anghywir.

## ATODIAD B - YMATEBION GAN GYRFF (GAN GYNNWYS PLEIDIAU GWLEIDYDDOL)

### Refferendwm yr UE

- Gallai fod o help i gynhyrchwyr bwysleisio y dylai'r sylw fynd y tu hwnt i "adroddiadau amhleidiol ac annibynnol ar yr ymgyrch" i adlewyrchu ystod mor eang o safbwyntiau â phosibl. Er bod y bleidlais yn debygol o fod am gwestiwn dwyochrog, gallai'r ddadl gyhoeddus fod yn fwy amrywiol oherwydd cymhlethdod gwleidyddiaeth yn y Deyrnas Unedig. Dylai agenda newyddion y BBC ddefnyddio ffynonellau y tu hwnt i'r ymgyrchoedd swyddogol o blaid aros/gadael. Un wers yn sgil Refferendwm yr Alban oedd bod cynulleidfaoedd am gael gwybodaeth am effeithiau'r gwahanol safbwyntiau polisi ac os na fydd newyddiaduraeth yn gwneud hyn, gallant deimlo'n anfodlon.

- Yn ei ymateb i'r Ymgynghoriad ar y Canllawiau ar gyfer yr Etholiad Cyffredinol, dywedodd y Cyngor ei fod yn teimlo bod angen rhagor o gyngor am yr ystod o ffactorau y gallai cynhyrchwyr eu pwyso a'u mesur, yn enwedig sut y dylai'r rhwydwaith ymdrin â'r hyn a oedd yn ymgyrchoedd gwahanol ond cydgysylltiedig yng ngwahanol wledydd y Deyrnas Unedig. Mae'r Cyngor yn teimlo y gall hyn fod yn berthnasol i refferendwm yr UE hefyd. Awgrymodd y Cyngor hefyd y gellid anelu'r ddogfen Ganllawiau at dalwyr ffi'r drwydded yn ogystal ag at newyddiadurwyr y BBC ac y gallai'r BBC egluro'n well i daldwyr ffi'r drwydded sut mae'n bwriadu sicrhau amhleidioldeb. Mae'r Cyngor yn teimlo bod hyn yn berthnasol yn yr achos presennol hefyd.

- Nododd aelodau yr agweddau hynny ar adroddiadau y cyfeiriwyd atynt gan bobl sy'n talu ffi'r drwydded fel agweddau a oedd yn cyfrannu at ymdeimlad o amhleidioldeb. Rhai o'r pwysicaf o'r rhain oedd sut mae penawdau'n cael eu hysgrifennu, sut y dylai'r BBC adrodd am ddadleuon yn y cyfryngau cymdeithasol a chymryd rhan ynddynt; sut mae'r BBC yn ymateb i alw'r gynulleidfa am newyddiaduraeth wreiddiol a dadansoddiadau ar faterion pwysig; sut mae sicrhau nad yw newyddiaduraeth y BBC yn gorddibynnu ar ffynonellau newyddion confensiynol; sut mae'n sicrhau bod pob plaid yn cael ei herio i'r un graddau; sut mae'n sicrhau nad yw rhaglenni'r DU yn cyflwyno safbwyntiau Eingl-ganolog pan na fydd hynny'n briodol. Gallai fod yn ddefnyddiol petai'r canllawiau tynnu sylw'r golygyddion a'r cynhyrchwyr at y ffactorau hyn.

- Pan ddarlledir dadleuon o arwyddocâd cenedlaethol megis am refferendwm yr UE - naill ai yn yr Alban neu yn y DU - dylai'r etholaeth gael ei chynrychioli'r gymdeithasol ac yn ddaearyddol mewn cynulleidfaoedd stiwdio/lleoliad. Dylid rhoi canllawiau eglurach ynghylch sut mae cyflawni hyn.

- Yn olaf, mae'n bosibl y bydd gorgyffwrdd rhwng yr etholiadau ar gyfer y deddfwrfeydd datganoledig a Refferendwm yr UE. Gall fod gofyn cyhoeddi rhagor o ganllawiau ynghylch hyn, yn enwedig petai'r pleidiau'n caniatáu i'w cynrychiolwyr (gan gynnwys Gweinidogion) fabwysiadu safbwyntiau personol yn hytrach na rhai'r blaid ar y mater hwn.

*Cyngor Cynulleidfa'r Alban, Ionawr 2016*

## ATODIAD B - YMATEBION GAN GYRFF (GAN GYNNWYS PLEIDIAU GWLEIDYDDOL)

BRITAIN STRONGER IN EUROPE

Ionawr 2016

Annwyl Syr neu Fadam,

Diolch ichi am eich gwahoddiad i ymateb i'r ymgynghoriad ar y canllawiau drafft ar gyfer sylw i refferendwm ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd.

Rydym ni, Prydain yn Gryfach yn Ewrop, yn ceisio cael ein dynodi gan y Comisiwn Etholiadol yn ymgyrch ddynodedig ar ochr "aros" y ddadl yn y refferendwm hwn.

Dyma ein hymateb i'r tri chwestiwn a ofynnwyd gennych:

**A yw'r Canllawiau arfaethedig ar gyfer refferendwm yr UE yn ymddangos yn berthnasol ac yn briodol ar gyfer y refferendwm hwn? Os nad ydynt, esboniwch pam?**

Yn fras, mae ein hymgyrch yn credu bod y canllawiau hyn yn gyffredinol berthnasol a phriodol ar gyfer y refferendwm penodol hwn - er ein bod yn credu y gellid eu cryfhau a'u hegluro mewn ambell faes er mwyn sicrhau amhleidioldeb trwyadl drwy gydol yr ymgyrch.

**1) <u>Cydbwysedd Cyffredinol</u>**

- Mae a wnelo ein prif bryder â mater "cydbwysedd cyffredinol" (Erth 3.1). Mae'n gwbl briodol i'r BBC geisio cael ystod eang iawn o leisiau ar ddwy ochr y ddadl ac rydym yn croesawu'r ffaith y bydd pobl o gefndiroedd amhleidiol yn ymwneud â'r sylw i'r ddadl mewn darllediadau.

- Serch hynny, o ran cydbwysedd y sylw i "grwpiau ymgyrchu", rydym yn poeni am y canllawiau fel maent wedi'u drafftio am eu bod yn ymwrthod ag ymrwymiad i "gydbwysedd cyffredinol", ac yn hytrach yn dewis yr opsiwn gwannach sef "lefelau tebyg o sylw". Mae hyn yn arbennig o bwysig ac ystyried dyletswyddau cyfreithiol pob ymgyrch ddynodedig. Os byddwn yn llwyddo i ddod yn ymgyrch ddynodedig, yna byddai'n ddyletswydd arnom, fel rhan o'r broses ddynodi, ddangos sut y byddem yn cyflwyno’r ddadl ar yr ochr “aros” yn ei holl gyflawnder, a byddai disgwyl i’r ymgyrch lwyddiannus ar yr ochr "gadael" wneud yr un fath gyda golwg ar ei dadl hithau.

**ATODIAD B - YMATEBION GAN GYRFF (GAN GYNNWYS PLEIDIAU GWLEIDYDDOL)**

- Byddwch chi a'ch cynulleidfaoedd, wrth gwrs, am glywed gan ystod ehangach o lawer o leisiau na'r rheini sydd yn ymwneud yn ffurfiol â'r ddwy ymgyrch ddynodedig. Rydym yn cefnogi hynny'n llwyr, am ein bod yn credu'n gryf fod angen i bob cyfranogwr yn y ddadl hollbwysig hon, nid dim ond yr ymgyrchoedd dynodedig, gael eu clywed.

- Ond, ni chredwn er hynny y byddai'n dderbyniol cynnig i'r naill ymgyrch ddynodedig na'r llall gyfle i gyflwyno'u llefarwyr eu hunain ar yr un pryd ag y byddai cyflwynydd y safbwynt gwrthwynebus yn cael ei ddethol gan gyfranogwr ymgyrch sydd heb ei ddynodi - yn enwedig ac ystyried ein dyletswyddau rheoleiddio yn ystod y cyfnod dynodedig. Rydym yn awyddus i weld y ddwy ymgyrch ddynodedig, oherwydd eu dyletswydd reoleiddiol i gynrychioli eu hochr hwy o'r ddadl yn ei chyfanrwydd, yn cael eu gwahaniaethu'n glir oddi wrth gyfranogwyr eraill yn y ddadl nad oes ganddynt ddyletswyddau tebyg i gynrychioli safbwyntiau mor eang, ac ni chredwn y dylai cyfranogwyr sydd heb eu dynodi gael eu portreadu gerbron y cyhoedd fel petaent yn cynrychioli holl safbwyntiau'r ddadl ar y naill ochr na'r llall.

- Byddai gadael i lefarydd o'r ymgyrch "gadael" ddynodedig ymddangos yn erbyn neu ar yr un rhaglen â llais "aros" nad oedd yn gysylltiedig â'r ymgyrch "aros" (ac sydd o bosibl yn arddel gwahanol safbwyntiau am nifer o faterion penodol gydag olwg ar y refferendwm o ganlyniad) yn ddigon diduedd yn ein barn ni. Byddai'n rhoi swyddogaeth fwy amlwg o lawer i brif negeseuon un ymgyrch dros un arall pe caniateid i hynny ddigwydd ar gyfryngau'r BBC, yn ogystal â rhoi llawer mwy o reolaeth a dylanwad i un ymgyrch dros bwy yr oeddent yn ei ddewis i'w gynnig am gyfweliad. Yn gryno, byddai'n rhoi mantais strategol i un ymgyrch dros y llall. Credwn y dylai fod cydbwysedd cyffredinol yn ystod y cyfnod dynodedig rhwng y ddwy ymgyrch swyddogol.

**2) <u>Pwy sy'n siarad dros bob ymgyrch?</u>**

- Mae hyn hefyd yn codi cwestiynau ynghylch pwy sy'n siarad dros bob ymgyrch, a'r angen i sicrhau eglurdeb i gynulleidfaoedd ynghylch a yw siaradwr gwadd yn llefarydd ar ran ymgyrch, yn rhywun sy'n gysylltiedig â'r ymgyrch mewn rhyw ffodd, ynteu'n rhywun sydd ond yn cytuno â safbwynt yr ymgyrch y dylai'r Deyrnas Unedig aros yn yr UE ynteu ei adael.

**3) <u>Arbenigedd sectoraidd</u>**

- Ar hynny, lle bydd sector neu fater penodol yn (e.e. moduro, ffermio, gwyddoniaeth ac ati) yn cael ei drafod, byddem yn credu y byddai'n rhesymol disgwyl i'r bobl sy'n trafod y pwnc ddod o'r un sector neu o'r un maes arbenigedd. Er enghraifft, mewn trafodaeth am y sector amaethyddol, byddai'n ymddangos yn briodol cael dau ffermwr (neu arbenigwyr ym maes amaethyddiaeth) i drafod y mater yn hytrach nag un arbenigwr yn dadlau yn erbyn llefarydd generig yn yr ymgyrch.

**4) Rhoi cyd-destun i'r farn**

- Mae'n bwysig hefyd rhoi cyd-destun i nerth y farn mewn unrhyw sector a drafodir. Er enghraifft, os oes tystiolaeth i ddangos mai'r farn fwyafrifol amlwg ym maes ffermio yw "Gadael" neu "Aros", dylid ei gwneud yn glir i'r gynulleidfa nad yw'r rheini sydd yn y lleiafrif yn cynrychioli'r diwydiant/sector yn ei gyfanrwydd.

**5) Amlygrwydd cyfartal ar gyfer gweithgarwch cyfartal**

- Yn ystod yr ymgyrch, bydd nifer o gefnogwyr newydd yn ddiamau yn cael eu "datgelu" gan bob ochr. Er y bydd agenda newyddion bob dydd yn sicr yn amrywio a dibynnu ar ddigwyddiadau, byddem yn disgwyl gweld lefel debyg o amlygrwydd yn cael ei rhoi i gefnogwyr newydd ar y ddwy ochr.

**6) Byd yw ystyr "aros" a "gadael"?**

- Ac ystyried ei bod yn rhaid i gynulleidfaoedd ddewis rhwng dau gynnig gwahanol: aros neu adael yr Undeb Ewropeaidd mae'n werth nodi'r anhawster y mae llawer o'r grwpiau a'r unigolion sy'n gysylltiedig â'r ymgyrchoedd "gadael" yn ei wynebu am eu bod yn arddel gwahanol farn am ba fath o berthynas y dylai'r Deyrnas Unedig ei chael ag Ewrop petaem yn pleidleisio dros adael.

- Fel y mae pethau, nid oes yr un o'r ddwy ymgyrch sy'n ceisio cael eu dynodi wedi diffinio hynny'n fanwl. Credwn y bydd yn bwysig cael eglurdeb ynghylch beth yw barn swyddogion yr ymgyrch "gadael" ddynodedig am y ddadl hollbwysig hon pan fydd yr ymgyrch yn dechrau. O bydd lleisiau "gadael" eraill y tu allan i'r ymgyrch ddynodedig yn cyflwyno dadleuon nad yw'r ymgyrch ddynodedig yn cytuno â hwy, bydd yn bwysig i wylwyr, gwrandawyr a darllenwyr gael clywed yn gyson am y berthynas rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd sy'n cael ei chynnig gan yr ymgyrch ddynodedig. Fel arall, bydd perygl gwirioneddol i'r cyhoedd fethu â deall yn glir beth yn union sy'n cael ei gynnig gyda golwg ar y cwestiwn hollbwysig hwn.

**7) Cwestiwn y refferendwm**

- Ac ystyried y cwestiwn sy'n cael ei ofyn yn y refferendwm hwn ("A ddylai'r Deyrnas Unedig aros yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd neu adael yr Undeb Ewropeaidd?"), cyfrifoldeb y BBC yw hysbysu ei chynulleidfaoedd am oblygiadau gadael ac aros yn yr Undeb Ewropeaidd.
- Bydd rhai yn awyddus i drafod materion eraill, culach yn fanwl, megis manteision ac anfanteision y drefn bresennol, neu ragoriaethau a gwendidau'r setliad a ail-negodwyd. Er bod y materion hyn wrth gwrs yn bwysig yng nghyd-destun y cwestiwn a ofynnir, byddem yn argymell y dylid rhoi sylw i'r cwestiwn yn ei gyfanrwydd ar

gyfer cynulleidfaoedd ac felly beth fyddai goblygiadau aros i mewn neu adael yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer dyfodol y wlad.

**A ydych yn meddwl bod unrhyw beth wedi'i hepgor o'r canllawiau?**

- Credwn y gallai fod rhagor o fanylion am y gorgyffwrdd posibl rhwng etholiadau Mai a'r sylw i faterion gwleidyddol eraill yn ystod cyfnod y refferendwm. Wrth gwrs, bydd cyfryngau'r BBC ar draws y wlad am glywed gan gynrychiolwyr UKIP wrth ddynesu at yr etholiadau ac yn ystod y sylw i faterion gwleidyddol eraill yn y Deyrnas Unedig yn ystod cyfnod y refferendwm. Ond mae angen cydbwyso'r sylw i'r dadleuon yn y refferendwm â'r cydbwysedd gwleidyddol yn gyffredinol. Ni ellir caniatáu i'r refferendwm droi'n Ddarllediad Gwleidyddol hwyaf erioed i un blaid yn unig.

- Plaid un-pwnc yw UKIP - fe'i sefydlwyd yn benodol i ymgyrchu o blaid sicrhau bod Prydain yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae ei chynrychiolwyr yn tueddu i gysylltu pob mater arall bron â'r gred graidd honno, ond byddant yn aml yn gallu gwneud hynny heb gyfeirio'n benodol at y refferendwm neu'r ymgyrch. Bydd llawer o'r dadleuon y byddant yn eu cyflwyno yn ystod ymgyrch etholiad Mai (a all yn wir fod y tu allan i'r cyfnod dynodedig) yn cael eu defnyddio'n benodol i roi sylw i ddadleuon am y refferendwm. Mae'n hollbwysig bod lleisiau "gadael" o UKIP yn cael eu cydbwyso'n gywir yn y cyfnod hwnnw drwy gael cynrychiolaeth gref gan leisiau "aros" yn ystod cyfnod dynodedig yr ymgyrch ac yn ystod ymgyrch etholiad Mai.

- Yn yr adran gynhwysfawr am adrodd ynghylch polau, credwn fod un hepgoriad bach. Fel ymgyrch, byddem yn gobeithio na fyddai cyfweliadau â'n llefarwyr (neu, yn wir, ag unrhyw un sy'n cymryd rhan yn y ddadl ar y ddwy ochr) yn cael eu llethu gan gwestiynau am bolau. Yn anffodus, roedd hyn yn un o nodweddion negyddol ymgyrch yr Etholiad Cyffredinol ar draws ystod o gyfryngau ac fe arweiniodd at ddadl gulach am y materion mawr.

- Er mwyn sicrhau dealltwriaeth mor gynhwysfawr am y pynciau â phosibl, a chan ystyried pwysigrwydd y cwestiwn sy'n wynebu'r wlad, byddem yn meddwl y byddai'n hollbwysig trafod materion o sylwedd yn hytrach na â thrafod ciplun o'r farn gyfredol. Mae hyn i gyd yn bwysicach fyth a chofio, fel y gwelsom yn yr etholiad cyffredinol, y gall y polau fod yn wallus.

- Wrth gwrs, bydd pobl yn cael eu holi am bolau ond rydym yn meddwl y byddai'n well i gyfranogwyr, gwylwyr, gwrandawyr a darllenwyr a newyddiadurwyr petai cyfweliadau'n canolbwyntio ar y materion mawr sy'n berthnasol i refferendwm am adael yr Undeb Ewropeaidd ac nid ar ddarogan polwyr. Mae'n werth nodi hefyd yr ymchwiliad gan y diwydiant polau ar ôl yr Etholiad Cyffredinol a'r gwahaniaethau cyson rhwng polau ffôn a pholau arlein. Ni ellir ac ni ddylid cymryd bod polau'n "brawf" o ganlyniad y refferendwm. Gadewch inni gael digon o drafod am y materion

mawr a gadael i'r cyhoedd benderfynu yn y bleidlais sy'n cyfrif mewn gwirionedd - y refferendwm ei hun.

**A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am y canllawiau arfaethedig?**

- Credwn ei bod yn gwbl hanfodol sicrhau cydymffurfio â'ch datganiad ynghylch safbwynt golygyddol y sylw mewn papurau newydd. Fel sy'n iach yn yr amgylchedd cyfryngau amrywiol sydd gennym yn y wlad hon, bydd llawer o bapurau newydd cenedlaethol yn gryf o blaid y naill ochr i'r ddadl neu'r llall. Mae'r Daily Express, er enghraifft, fel y mae ganddo berffaith hawl i'w wneud, wedi ymgyrchu'n groch ac yn gyson o blaid Prydain yn gadael yr UE. Yn sgil hynny, mae swm sylweddol o'u sylw i'r pwnc yn sylw nad yw'n amhleidiol ac, os bydd pethau'n cael eu hadrodd ar gyfryngau'r BBC sydd wedi deillio o'r Express, mae'n hanfodol bod y gwyliwr, y gwrandäwr neu'r darllenwr yn cael ei atgoffa am safbwynt golygyddol diwyro iawn y papur. Ac, wrth gwrs, byddai'r un peth yn wir am unrhyw gyhoeddiad y gwyddys ei fod yn lleisio'i gefnogaeth yn gryf o blaid aros yn yr UE.

- Yn olaf, rydym yn cytuno'n llwyr na ddylai'r un ochr o'r ddadl allu ymarfer hawl i feto ar y dadleuon neu'r trafodaethau drwy wrthod cymryd rhan. Serch hynny, er mwyn gorfodi hynny'n briodol, rhaid hefyd sicrhau rhywfaint o hyblygrwydd gan gyfryngau'r BBC ynghylch pa gyfranogwyr sy'n cymryd rhan. Byddai'n annheg i gynhyrchwyr fynnu bod unigolyn penodol o'r naill ymgyrch neu'r llall yn cymryd rhan, oherwydd bod llawer yn cynnig eu cymorth yn wirfoddol, ac efallai na fyddant ar gael neu na fyddant yn addas ar gyfer y ddadl neu'r drafodaeth benodol dan sylw. Lle bynnag y bo modd, dylid rhoi'r cyfle i'r ddwy ymgyrch ddarparu cynrychiolwyr addas yn lle'r rheini y gofynnwyd amdanynt yn wreiddiol.

Yn gywir,

Dirprwy Gyfarwyddwr, Prydain yn Gryfach yn Ewrop

# ATODIAD B - YMATEBION GAN GYRFF (GAN GYNNWYS PLEIDIAU GWLEIDYDDOL)

Canllawiau Refferendwm yr UE - Ymateb i'r Ymgynghoriad

Melin Drafod Ekklesia

CYFLWYNIAD GAN FELIN DRAFOD EKKLESIA

[Cyfeiriad cofrestredig: 235 Shaftesbury Avenue, Llundain, WC2H 8EP]

Daw'r sylwadau hyn ynghylch Canllawiau'r BBC ar gyfer Ymgyrch y Refferendwm ynglŷn ag aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd gan y felin drafod annibynnol Ekklesia. Nid ydym yn gysylltiedig ag unrhyw grŵp ymgyrchu sy'n gysylltiedig â'r ymgyrch hon, ac nid ydym yn perthyn i'r un blaid na'r un enwad gwleidyddol. Mae ein cyfarwyddwyr, y bwrdd a'r cymdeithion yn cynnwys pobl sydd â gwahanol gysylltiadau neu bobl ddim cysylltiadau o gwbl.

Yr hyn y mae Ekklesia yn poeni amdano fwyaf yw sicrhau bod mandad gwasanaeth cyhoeddus y BBC a'i dyletswyddau statudol gyda golwg ar sylw i'r Ymgyrch Refferendwm hwn yn cael eu cyflawni yn y fath fodd ag i osgoi amhleidioldeb annyladwy ac i *alluogi'r craffu democrataidd ehangaf posibl ar y ffeithiau a'r dadleuon* rhwng y safbwyntiau gwrthwynebus sy'n gysylltiedig â'r ddau opsiwn ar y papur pleidleisio.

Nodwn yr haeriad (tudalen 5) bod amhleidioldeb dyladwy yn ystod yr ymgyrch yn golygu dod o hyd i "gydbwysedd cyffredinol" rhwng y dadleuon ac nid o reidrwydd rhwng y Grwpiau Ymgyrchu dynodedig. Hoffem dynnu eich sylw at ddau beth pwysig sy'n berthnasol i hyn.

Yn gyntaf, rydych yn sôn am sicrhau cydbwysedd rhwng dadleuon. Bydd 'dadleuon' *ynddynt eu hunain* o reidrwydd yn golygu, i wahanol raddau, dair elfen: barn, data a dehongli. Byddem yn annog y BBC i roi sylw penodol i ffynonellau'r data a'u dehongli, ac *i sicrhau bod haeriadau o natur honedig neu ymddangosiadol ffeithiol a ddefnyddir i gyfiawnhau safbwyntiau a haeriadau'n destun craffu trwyadl*.

Nodwn, yn ystod ymgyrch Refferendwm Annibyniaeth yr Alban, fod y BBC wedi rhoi sylw a blaenoriaeth yn benodol i - haeriadau a oedd yn aml yn rhai dramatig, ac yn "creu'r penawdau' o du buddiannau corfforaethol a gwleidyddion a oedd naill ai'n "rhybuddion llym" neu'n 'ddatganiadau dychryn' (a dibynnu ar ddehongliad rhywun). Roedd llawer o'r rhain i bob golwg heb gael gwirio'u ffeithiau cyn eu darlledu, ac erbyn i rai ymddatod roeddent wedi hen adael eu heffaith. Rydym yn gobeithio y gwnaiff y Gorfforaeth ddangos llawer mwy *o grebwyll proffesiynol yn ystod y refferendwm hwn, gan weld ei dyletswydd i fod yn amhleidiol yn un sy'n cynnwys ymchwilio'n ofalus i honiadau pleidiol - yn enwedig grwpiau budd mawr a chyfoethog* sydd â'r adnoddau i geisio dylanwadu fel hyn ar y ddadl.

Mae'n ymddangos nad oes dim datganiad uniongyrchol am hyn yn y Canllawiau, fe nodwn. Yn groes i hynny, ac ystyried y cyfryngau cymdeithasol (adran 6.2, tudalen 10), mae datganiad clir y dylai cynhyrchwyr cynnwys fod yn drwyadl wrth benderfynu beth yw tarddiad y deunyddiau a gynigir yn gyfraniadau gan y gynulleidfa ac ysgwyddo'r cyfrifoldeb am eu dilysrwydd. *Dylai hyn fod yn berthnasol i arweinyddion busnes, arianwyr a chynrychiolwyr corfforaethau mawr hefyd*.

Yn ail, er na wnaiff y broses gofrestru ond ganiatáu ar gyfer dwy brif ymgyrch, ac mai dewis amrwd a dwyochrog yw'r Refferendwm ('aros' ynteu 'adael'), byddem yn nodi y byddai llawer o ymgyrchwyr sy'n dewis y naill ochr neu'r llall, neu sy'n dewis aros yn niwtral ac atal eu pleidlais, yn dymuno pwysleisio agweddau at ffurflywodraeth yr Undeb Ewropeaidd - yn y gorffennol, yn y presennol ac yn y dyfodol - nad ydynt yn amlwg o addas i'w defnyddio'n ddadl uniongyrchol, yn y fan a'r lle o blaid un 'ochr' neu'r llall. Ein gobaith yw na fydd awydd y BBC i sicrhau "cydbwysedd cyffredinol" yn

eithrio'r safbwyntiau a'r lleisiau mwy amrywiol hyn neu'n eu gwthio i'r cyrion*; ac y bydd yr ymgyrchoedd ar y ddwy ochr* sy'n trefnu ac yn rhoi eu hadnoddau ar waith yn annibynnol oddi ar y ddwy brif ymgyrch yn cael eu cynnwys yn deg *yn y gymysgedd gyffredinol.*

Yn adran 4.2 (tudalen 8) mae'r Canllawiau'n dweud: Os bydd un ochr o'r ymgyrch yn gwrthod cymryd rhan, rhaid i gynhyrchwyr y ddarpariaeth gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y gynulleidfa'n cael deunydd perthnasol a phriodol gan ddwy ochr dadl y refferendwm. Er ein bod yn cytuno â hyn mewn egwyddor, rydym yn nodi, os bydd rhywun yn absennol o'r ddadl ond eto i gyd bod safbwyntiau eich ochr chi o'r ddadl yn cael eu cynnwys drwy ddulliau eraill, y gall hynny arwain at sefyllfa lle na ellir craffu'n uniongyrchol ar y blaid sy'n gwrthod cymryd rhan. Ni ddylid rhoi'r fantais hon i'r rhai sy'n gwrthod, na chaniatáu iddynt ddefnyddio gwrthod cymryd rhan fel ffordd o sicrhau mantais dawel. *Gall fod yn decach dan rai amgylchiadau bod y 'gadair wag' yn llais absennol*.

Hefyd ar dudalen 8: Wrth lunio barn olygyddol am bwy a allai gynrychioli'r ddwy ochr o'r mater, dylai cynhyrchwyr cynnwys fod yn ymwybodol bod y ffordd y byddant yn gwneud hynny - er enghraifft, mewn trafodaethau rhwng gwleidyddion pleidiau ac ymgyrchwyr nad ydynt yn cynrychioli pleidiau - ynddi ei hun yn gallu dylanwadu ar sut y caiff pob ochr ei phortreadu ac, felly, ddylanwadu ar amhleidioldeb dyladwy. Ac ystyried hyd a lled y drafodaeth, dylai cynhyrchwyr cynnwys gynllunio, lle bo hynny'n briodol, i adlewyrchu ystod o leisiau o'r fath - a chyfuniadau o leisiau - ar draws yr ymgyrch. Er ein bod yn cytuno â nodau a chasgliad y safbwynt hwn, byddem hefyd yn gobeithio *na ddylai ymgyrchwyr ac ymgyrchoedd gael eu cyfyngu'n ddiangen rhag gallu i ddewis llefarwyr drostynt eu hunain* - gan adael i'r cyhoedd benderfynu ar y sail honno yn ogystal ag ar sail y dadleuon a'r data.

Nodwn nad oes dim cyfeiriadau yn y canllawiau at undebau llafur a chyrff llafur/gweithwyr, nac i leisiau mudwyr a grwpiau eraill ar y cyrion. *Byddem yn annog y BBC i roi sylw i'r grwpiau hyn, yn enwedig ac ystyried y tebygolrwydd y bydd economeg a mudo'n chwarae rhan allweddol yn ymgyrch y refferendwm*.

Mae'r gwaith ymchwil yn dangos bod anghydbwysedd difrifol eisoes yn sylw'r BBC rhwng cynrychiolwyr corfforaethau a busnesau ar y llall, a llefarwyr o undebau neu fyd llafur ar y llall. Mae lleisiau mudwyr a ffoaduriaid mewn dadleuon polisi ynghylch materion sy'n effeithio'n uniongyrchol arnynt hefyd yn cael eu gwthio i'r cyrion, gan roi'r flaenoriaeth i wleidyddion, dadansoddwyr academaidd a chyrff lobïo. *Byddem yn dymuno gweld mynd i'r afael â'r mathau hyn o ddiffyg cydbwysedd hyn yn ystod y sylw i ymgyrch y Refferendwm - a'r tu hwnt*.

Yn y rhan fwyaf o agweddau eraill, rydym yn cydnabod ac yn croesawu ymdrech y Canllawiau a'r Atodiadau i sicrhau triniaeth deg a rhesymol. Serch hynny, byddem yn annog *rhagor o ystyriaeth i weithdrefnau monitro annibynnol* gyda golwg ar gyflawni telerau Siarter a Chytundeb 2006 y BBC i sicrhau bod materion gwleidyddol, gan gynnwys y Refferendwm hwn, yn cael sylw gyda chywirdeb ac amhleidioldeb dyladwy, gan gyfeirio at Ganllawiau Golygyddol y Gorfforaeth (yn benodol, Pennod 4, "Amhleidioldeb ac Amrywiaeth Barn" a Phennod 10, "Gwleidyddiaeth a Pholisi Cyhoeddus").

---

Rwy'n cadarnhau fy mod yn fodlon i'r cyflwyniad hwn a'm henw gael eu cyhoeddi.

Cyd-gyfarwyddwr

## ATODIAD B - YMATEBION GAN GYRFF (GAN GYNNWYS PLEIDIAU GWLEIDYDDOL)

Ekklesia3
3/3 Kirk Street
Leith
Caeredin
EH6 5 EX

Cyfarwyddwr, Melin Drafod Ekklesia Cyfryngau, ymchwil, ymgynghori, polisi cyhoeddus, hyfforddi a datblygu, gwleidyddiaeth a daliadau.

Green Party

# PLAID WERDD CYMRU A LLOEGR

## Ymateb i'r ymgynghoriad ar y canllawiau drafft ar gyfer y sylw i'r refferendwm ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd 2016.

Diolch ichi am ein gwahodd i ymateb i'r canllawiau drafft a fydd yn help i ddiffinio sut y gwnaiff y BBC gydymffurfio â'i dyletswydd i fod yn ddyladwy o amhleidiol yn ystod cyfnod y refferendwm ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd a'r cyfnod wrth inni ddynesu ato.

**1 A yw'r Canllawiau arfaethedig ar gyfer Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd yn ymddangos yn berthnasol ac yn briodol ar gyfer y refferendwm hwn? Os nad ydynt, esboniwch pam?**

Mae'r Blaid Werdd yn gyffredinol fodlon ar y canllawiau ar gyfer refferendwm yr UE fel y maent yn yr ymgynghoriad. Rydym yn poeni er hynny bod y termau a ddefnyddir yn y cynigion yn amwys ac nad ydynt o bosibl yn caniatáu ar gyfer rhoi sylw teg i'r holl ystod o safbwyntiau ar aelodaeth o'r UE gan y BBC.

Y prif beth sy'n ein poeni am y canllawiau yw'r datganiad y bydd sicrhau amhleidioldeb dyladwy yn ystod yr ymgyrch yn golygu dod o hyd i "gydbwysedd cyffredinol" rhwng y dadleuon ac nid o reidrwydd rhwng y Grwpiau Ymgyrchu dynodedig. Rydym yn poeni nad yw'r fformiwla hon yn gwneud cyfiawnder â'r ystod eang o ddadleuon, nac yn yr ymgyrch i adael yr UE na'r ymgyrch i aros, ac na fydd y farn olygyddol ynghylch beth yw'r "dadleuon" o reidrwydd yn adlewyrchu'r amrywiaeth honno o safbwyntiau. Gallai hyn olygu bod y dadleuon penodol y byddai'r Blaid Werdd a'r sefydliadau ymgyrchu amgylcheddol yn hoffi eu cyflwyno i'r etholaeth yn cael eu heithrio. Byddem yn hoffi clywed rhywfaint o wybodaeth ychwanegol am sut y defnyddir barn olygyddol i ddiffinio'r dadleuon a sicrhau bod yr ystod ehangaf o safbwyntiau ar aelodaeth yn cael eu trafod wrth roi sylw i'r etholiad.

Nodwn hefyd fod yr ymgynghoriad yn dweud y 'gall fod amgylchiadau lle y dylid ystyried nerth lleisiau eraill, y tu hwnt i'r cynrychiolwyr ffurfiol...o ran y cydbwysedd cyffredinol. Byddem yn croesawu rhagor o eglurhad ac enghreifftiau o sut y bydd perthnasedd gwahanol leisiau'n cael eu pennu'n olygyddol a hefyd beth yw'r diffiniad gweithio o 'gynrychiolwyr ffurfiol' yng nghyd-destun yr ymgyrch.

**2. C.2 A oes unrhyw beth wedi'i hepgor o'r Canllawiau arfaethedig**

Ac eithrio egluro'r materion a godwyd wrth ymateb i gwestiwn 1, uchod, ni chredwn fod unrhyw beth sylweddol wedi'i hepgor o'r canllawiau arfaethedig.

**3. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am y Canllawiau arfaethedig?**

Nac oes.

Plaid Werdd Cymru a Lloegr

7fed Ionawr 2016

Y Blaid Werdd, Development House, 56-64 Leonard Street, Llundain EC2A 4LT
T +44 (0) 20 7549 0310 E office@greenparty.org.uk W www.greenparty.org.uk

Y Democratiaid Rhyddfrydol

Uwch Gynghorydd Safonau Golygyddol
Ymgynghori ynghylch Darllediadau i'r Pleidiau Gwleidyddol
Uned Ymddiriedolaeth y BBC
180 Great Portland St
Llundain
W1W 5QZ

15 Ionawr 2016

Diolch am eich gwahoddiad i ymateb i'r Ymgynghoriad ar y Canllawiau drafft ar gyfer y sylw i refferendwm ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd.

Dyma ein hymateb i'r cwestiynau:

**A yw'r Canllawiau arfaethedig ar gyfer Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd yn ymddangos yn berthnasol ac yn briodol ar gyfer y refferendwm hwn? Os nad ydynt, esboniwch pam?**

Credwn eu bod yn gyffredinol. Byddem yn dadlau, wrth ddarparu cydbwysedd cyffredinol ar gyfer y ddadl, na ddylid rhoi sylw anghymesur i bleidiau penodol neu i wleidyddion unigol, yn enwedig petai Cyfnod y Refferendwm yn cyd-daro ag etholiad.

**A ydych yn teimlo bod unrhyw beth wedi'i hepgor o'r Canllawiau?**

Credwn, lle y defnyddir lleisiau gwleidyddol, y dylid rhoi ystyriaeth ddyladwy i'r cydbwysedd rhwng y pleidiau sy'n arddel y safbwynt hwnnw.

**A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am y Canllawiau arfaethedig?**

Mae gan y Democratiaid Rhyddfrydol safbwynt unigryw ar Ewrop gan mai ni yw'r unig blaid drwy'r DU sy'n unedig yn ein hymrwymiad i sicrhau bod y Deyrnas Unedig yn parhau'n aelod o'r UE. Credwn y dylai'r safbwynt hwn gael ei gynrychioli'n deg wrth roi sylw i'r refferendwm, yn ogystal ag i'r rheini sy'n gwrthwynebu aelodaeth Prydain a'r rheini sy'n cefnogi parhau'n aelod yn dibynnu ar ail-negodi.

Newswatch

Ionawr 14, 2016

Uned Ymddiriedolaeth y BBC - Canllawiau
Refferendwm yr UE
180 Great Portland St Llundain
W1W 5QZ

Annwyl Gyfeillion,

Amgaeir cyflwyniad News-watch i ymgynghoriad Ymddiriedolaeth y BBC ynghylch Canllawiau Refferendwm yr UE.

Yn gywir

News-watch

# Cyflwyniad i Ymgynghoriad Ymddiriedolaeth y BBC ynghylch Canllawiau Refferendwm yr UE

Ionawr 2016

## Rhagair

Mae News-watch wedi bod yn monitro allbwn y BBC sy'n gysylltiedig â'r UE ers 16 mlynedd. Mae ymchwil fanwl sydd wedi'i seilio ar ddadansoddi rhaglenni perthnasol y BBC yn systematig, gan ddefnyddio egwyddorion academaidd, wedi dangos bod gofynion y Siarter ynghylch amhleidioldeb wedi'u torri dro ar ôl tro. Yn bwysicach na dim, mae'r ddadl o blaid tynnu allan wedi cael ei than-adrodd yn ddifrifol a'r rheini sy'n argymell Brexit wedi cael eu darlunio'n senoffobiaid, yn eithafwyr anhrefnus o'r 'dde' neu'r 'dde eithafol'.[1] Mae archif o adroddiadau News-watch ac elfennau o'i ymgysylltu â'r BBC i'w gweld yn [www.news-watch.co.uk](http://www.news-watch.co.uk). Dros y cyfnod i gyd, mae Ymddiriedolwyr y BBC wedi ymrwymo i archwilio canfyddiadau News-watch ddwywaith yn unig. Bob tro, mae'r Ymddiriedolwyr wedi arddel ymagwedd hynod unochrog i'r ymchwil ac fe wrthodwyd tystiolaeth glir o dorri amhleidioldeb ar seiliau amheus a oedd yn gweddu i'r BBC ond yn anwybyddu rheolau ymchwilio teg.[2]

Ymdrech yw'r cyflwyniad hwn i berswadio'r Ymddiriedolwyr i fabwysiadu yn y Canllawiau Golygyddol arfaethedig ymagwedd fwy trwyadl ac amlwg annibynnol o lawer at sicrhau amhleidioldeb yn ystod ymgyrch y refferendwm.

Mae Ymddiriedolwyr y BBC a'r rheini y rhoddwyd iddynt y dasg o archwilio i amhleidioldeb ar eu rhan wedi ceisio dangos nad yw monitro'n 'fuddiol' a'i fod wedi'i seilio ar 'fetrics', gan awgrymu bod ymchwiliadau o'r fath yn canolbwyntio'n unig ar gyfrif ymddangosiadau gan lefarwyr a chyfrifo'r amser a neilltuir iddynt ar yr awyr.[3] Mae hyn yn enghraifft o gamliwio ymagwedd News-watch yn fwriadol, sy'n ymchwilio i amhleidioldeb drwy ddefnyddio ystod o arfau dadansoddi, rhai meintiol ac ansoddol, ac nid yw erioed wedi canolbwyntio ar ddata ystadegol yn unig. Mae corff gwaith News-watch yn rhoi digon o dystiolaeth sy'n dangos bod yr Ymddiriedolwyr, yn groes i hynny, heb brosesau digonol ar waith i sicrhau'n briodol bod gofynion y Siarter yn cael eu cyflawni.

Ac yn wir, mae Canllawiau drafft y Refferendwm yn gostwng amhleidioldeb i lefel sicrhau 'cydbwysedd cyffredinol' - metrics syml sy'n canolbwyntio ar gyfri pennau - ac maent yn anwybyddu'r ystyriaeth hollbwysig ynghylch sut y caiff siaradwyr gwadd eu trin mewn gwirionedd, gan gynnwys tôn y cyfweliad, cynnwys y cwestiynau, nifer yr ymyraethau, y safle a roddir i siaradwyr mewn adroddiadau unigol, o fewn rhaglenni neu o fewn yr amserlen yn gyffredinol. Hefyd, pwy sy'n cael ei ddewis ar gyfer pob ochr, a pha mor wybodus a huawdl yw'r rhain. Mae amhleidioldeb yn dibynnu ar

1 http://news-watch.co.uk/wp-content/uploads/2015/03/News-Watch-European-Election-2014-Full-Survey.pdf
2 http://news-watch.co.uk/wp-content/uploads/2015/10/Independent-Editorial-Advisers-Report-on-Lord-Pearsons-Appeal-to- the-ESC.pdf and http://news-watch.co.uk/wp-content/uploads/2015/03/2.-Editorial-Standards-Committee-decision-on- Newsnight-Complaint-17-November-2013.pdf
3 http://data.parliament.uk/writtenevidence/committeeevidence.svc/evidencedocument/european-scrutiny-committee/eu-scrutiny-follow-up/oral/23350.html
4 http://news-watch.co.uk/wp-content/uploads/2016/01/News-watch-submission-to-the-European-Scrutiny-Committee.pdf

lu o ffactorau cymhleth sy'n cydgloi i'w gilydd, ac mae News-watch yn poeni y bydd y camau y cyfeirir atynt yn y Canllawiau drafft ar gyfer y Refferendwm ar gyfer monitro cynnwys yn aneffeithiol o ran sicrhau gwrandawiad teg i'r ddwy ochr.

## Sylwadau

Bydd y refferendwm hwn ynghylch yr UE yn arwain at benderfyniad o bwys cyfansoddiadol enfawr. Mae'r ddogfen Ganllawiau arfaethedig yn rhy amwys i sicrhau amhleidioldeb amlwg. Mae'n gadael gormod i 'farn olygyddol' y BBC ei hun a roddir ar waith o fewn fframwaith rhydd ac anfanwl amhleidioldeb 'dyladwy'. Mae wedi cael ei ysgrifennu o'r tu mewn i gyd-fynd ag arferion gweithredol y BBC ei hun ac i'w hamddiffyn hi yn hytrach nag fel fframwaith trwyadl i sicrhau bod cynnwys yn cael ei reoleiddio'n wirioneddol annibynnol.

Un peth mawr cyffredinol sy'n destun pryder yw a yw'r Ymddiriedolwyr - sef cymedrolwyr terfynol amhleidioldeb - eu hunain yn ddigon annibynnol. Wrth gwrs mae aelodau'r Ymddiriedolaeth yn cael eu penodi gan yr Adran Diwylliant Cyfryngau a Chwaraeon ac un amod yw amhleidioldeb. Ond mae ystyriaethau arbennig ar waith yma. Dim ond dau o bump aelod o Bwyllgor Safonau Golygyddol yr Ymddiriedolaeth, Richard Ayre, a Mark Damazer, sydd â phrofiad helaeth o weithio mewn ystafell newyddion genedlaethol. Eto i gyd, fe dreuliodd y ddau y rhan fwyaf o'u gyrfa yn y BBC ac maent wedi bod, ac yn dal i fod, yn lladmeryddion o fri i'r Gorfforaeth. Efallai eu bod yn honni eu bod yn 'annibynnol' ond nid yw hyn yn gredadwy. Eto i gyd, byddant yn anochel yn chwarae rhan hollbwysig yn penderfynu ynghylch materion sy'n ymwneud ag amhleidioldeb a fydd yn codi yn ystod yr ymgyrch. Rydym wedi treulio sawl blwyddyn yn ceisio perswadio Mark Damazer i arddel ymagwedd lai Ewrobleidiol, heb fawr o lwyddiant. Hefyd, cyn belled ag y gallwn weld, mae sawl un o'r Ymddiriedolwyr yn gadarn yn y criw sy'n 'honni mai dyn sy'n gyfrifol am newid yn yr hinsawdd, mater sy'n amlwg yn gysylltiedig â'r UE, ac ni welwn ddim aelodau i'w gwrthbwyso. Dylai'r Canllawiau, o dan amgylchiadau eithriadol y refferendwm hwn, roi manylion am sut y bydd ymagwedd wirioneddol annibynnol yn berthnasol i benderfyniadau allweddol.

Nid oes dim yn y Canllawiau am dryloywder y broses. Er ei bod yn amlwg bod elfennau o drefniadau penderfynu'r BBC yn gyfrinachol am resymau gweithredol da, byddai gan y cyhoedd fwy o hyder yn y prosesau golygyddol petai sut y caiff penderfyniadau allweddol eu gwneud drwy gydol ymgyrch y refferendwm yn cael ei drafod yn fwy agored. Dim ond drwy'r weithdrefn gwyno y gellir herio'r allbwn yn ffurfiol. Mae'n ffaith, ers i'r Ymddiriedolwyr ddod yn gorff rheoleiddio'r BBC gyntaf nad ydynt wedi cadarnhau drwy'r ESC yr un gŵyn am y sylw i'r UE.[5] Mae'r BBC yn farnwr ac yn rheithgor o ran ei chydbwysedd golygyddol ei hun. A hynny'n gefndir, dylid cynnwys camau lle mae'r penderfynu'n agored i

[5] Pwyllgor Craffu Ewropeaidd, tystiolaeth lafar: Ymchwiliad craffu: dilynol, HC 918, dydd Mercher 14 Ionawr 2015, t 5

ôl-graffu ac sy'n dangos y rhoddir sylw i bryderon dilys o'r tu allan am gydbwysedd.

Mae prif ddarpariaethau adran 3.1 o'r ddogfen drafft yn rhy amwys i ddarparu fframwaith dibynadwy i sicrhau amhleidioldeb. Dylai'r BBC fod yn anelu yn y ddadl gyfansoddiadol hanesyddol hon i sicrhau amhleidioldeb go iawn (nid dim ond 'dyladwy') rhwng y garfan 'ie' a 'na'. Mae News-watch wedi darparu tystiolaeth helaeth i Bwyllgor Craffu Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin fod y gair 'dyladwy' wedi cael ei ddefnyddio i gyfiawnhau anghydbwysedd mawr yn y sylw i'r UE.[6] Fel y mae pethau, ni wnaiff dim yn y Canllawiau iawn am hyn. Problem arall yw bod y gofyniad i sicrhau amhleidioldeb wedi'i fframio yng nghyswllt 'cydbwysedd cyffredinol' yn unig a bod angen cynnwys 'ystod o leisiau'. Mae hyn yn rhoi rhyddid enfawr i olygyddion ddefnyddio'u barn ac mae'n golygu bod heriau o'r tu allan bron iawn yn amhosibl. Mae'r egwyddor 'cydbwysedd cyffredinol' yn cael ei estyn eto oherwydd y dywedir yn y Canllawiau y gellir o bosibl ei gyflawni ar draws llinynnau neu sianeli. Gallai hyn, er enghraifft, olygu bod cyfweliad Today am 8.10 yn cael ei 'gydbwyso' gyda rhywbeth sydd lawer ymhellach i lawr yn nhrefn y rhaglen. Mae hyn yn amlwg yn anghywir.

Un broblem fawr gyda'r sylw sy'n berthnasol i'r UE nad yw'n cael sylw o gwbl yn y Canllawiau yw bod angen terminoleg fanwl gywir. Mewn un maes penodol, mae hyn yn gwbl hanfodol. Mae archif News-watch yn dangos bod y term 'Undeb Ewropeaidd' yn rhaglenni'r BBC yn aml iawn wëid cael ei gamddefnyddio'n gyfnewid am 'Ewrop'. Mae'r anghywirdeb hyd yn oed wedi estyn i bôl blynyddol yr Ymddiriedolwyr eu hunain ynglŷn ag a yw'r BBC yn hysbysu cynulleidfaoedd am 'Ewrop'. Wrth gwrs mae'r llacrwydd hwn yn adlewyrchu i ryw raddau'r defnydd ar lafar. Ond yn ymgyrch y refferendwm, bydd manyldeb terminolegol yn hollbwysig. Mae'r rheini sy'n gwrthwynebu'r UE, er enghraifft, yn aml yn cael eu darlunio'n senoffobwyr sydd yn erbyn 'Ewrop'. Bydd angen herio ymosodiadau o'r fath yn drylwyr, ond nid oes gofyniad yn y Canllawiau ynghylch bod yn fwy gofalus nag arfer a hynny'n gyson er mwyn atal amhleidioldeb fel hyn.

Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor Craffu Ewropeaidd mae’r BBC wedi diystyru cynnwys monitro'n fodd o asesu yn ystod ymgyrch y refferendwm. Mae hyn yn cael ei gadarnhau yn y canllawiau, sef nad ydynt yn crybwyll unrhyw brosesau monitro ac eithrio drwy farn olygyddol fewnol. Mae hynny'n dwll enfawr yn y broses asesu. Heb fonitro trwyadl, strwythuredig sydd wedi'i seilio ar egwyddorion academaidd, ni ellir dangos yn amlwg bod modd sicrhau amhleidioldeb. Er enghraifft, sut y gall golygydd rhaglen ddyddiol, sy'n gyfrifol o dan y Canllawiau am sicrhau cydbwysedd o'r fath dros gyfnod o wythnos, gadw golwg ar bethau? Gyda rhaglen Today (er enghraifft) mae hynny'n golygu dadansoddi dwsinau o eitemau. Pwy sy'n mynd i wneud y gwaith hwn? A fydd yn gyfrifoldeb ar wahân drwy gydol yr ymgyrch a gweithwyr yn cael eu dyrannu i wneud y gwaith

6 http://news-watch.co.uk/wp-content/uploads/2016/01/News-watch-submission-to-the-European-Scrutiny-Committee.pdf

yn unol â hynny? Mae 3.1 yn diystyru mesuriadau 'stopwats' a 'mathemategol' ond pa ffyrdd eraill sydd o asesu amhleidioldeb rhwng dwy ochr? Nid oes cyfeiriad penodol at hyn.

Un cwestiwn mawr sydd heb ei ateb yw sut y llwyddir i osgoi'r fagl o ymdrin â'r ymgyrch drwy swigen San Steffan. Mae'r polau'n dangos bod barn y cyhoedd yn gryf yn erbyn yr UE yng nghyswllt ei chefnogaeth ymddangosiadol i fewnfudo torfol. Sut y rhoddir sylw i safbwyntiau o'r fath ( er enghraifft)? Ar y llaw arall, mae arweinwyr y blaid Geidwadol, y blaid Lafur, a'r Democratiaid Rhyddfrydol i gyd yn debygol o fod yn y gwersyll 'aros i mewn' ac o bosibl y rhan fwyaf o ASau (y rhan fwyaf o Lafur a'r holl SNP, yr holl Ddemocratiaid Rhyddfrydol, a hanner PLP y Ceidwadwyr). Sut y bydd y diffyg cytundeb hwn rhwng barn gyhoeddus a'u cynrychiolwyr Seneddol yn cael ei adlewyrchu a'i drin? A sut yr ymdrinnir ag UKIP ac ystyried mai dyma'r blaid fwyafrifol yng ngharfan y DU yn Senedd Ewrop, er nad oes ganddi ond un AS, a thri arglwydd sy'n cefnogi'r blaid. Eto i gyd cafodd 4m o bleidleisiau yn yr etholiad cyffredinol. Dim ond sampl o'r materion dan sylw yw'r rhain.

Mae'r Canllawiau'n dweud na fydd y gofynion 'cydbwysedd cyffredinol' yn berthnasol i rywfaint o'r sylw, er enghraifft os bydd 'anghytundeb mewnol dros dactegau'. Mae'n gwneud y Prif Gynghorydd Gwleidyddol yn gymedrolwr o ran atal "rheolau arferol'. Mae Dadansoddiadau gan News-watch wedi dangos bod sylw o'r fath i ffraeo o fewn UKIP, ac yn enwedig gyda golwg ar ei pholisïau sy'n gysylltiedig â mewnfudo, wedi arwain at sylw anghymesur o sylweddol. Os bydd hyn yn digwydd yn ystod ymgyrch y refferendwm, gallai gael effaith niweidiol sylweddol ar yr ymgyrch 'na'. Mae'r Canllawiau'n rhoi rhyddid i'r sylw hwn barhau, a bydd penderfyniadau yn y maes hwn yn dibynnu'n llwyr ar grebwyll y BBC, ac ni fyddant yn cael eu monitro.

Mae'r BBC yn derbyn nad yw ei newyddiadurwyr ar hyn o bryd yn gwybod digon am yr UE i sicrhau amhleidioldeb yn ystod ymgyrch y refferendwm. Mae'r Cyfarwyddwr Newyddion, James Harding, wedi cyhoeddi bod cyrsiau hyfforddi gorfodol i wneud iawn am hyn wrthi'n cael eu cynllunio. Ni chrybwyllir yr hyfforddiant hwn yn y Canllawiau, serch hynny. A fydd aelodau o'r staff sydd heb gael eu hyfforddi'n cael gweithio yn rhaglenni'r rheng flaen sy'n rhoi sylw i feysydd cymhleth a sensitif o ymgyrch y refferendwm? A allwn weld y rhaglen hyfforddi hon, i roi ein sylwadau am ei gwrthrychedd - nid oedd rhaglen hyfforddi ddiwethaf y BBC yn rhoi sylw i ddim o faterion sylfaenol yr UE.

Yn gysylltiedig â hyn, roedd adroddiad Arglwydd Wilson o Dinton am sylw'r BBC i'r UE yn cyfeirio'n benodol at y ffaith y dylid cymryd camau arbennig yn ystod ymgyrch refferendwm i hysbysu cynulleidfaoedd yn well am faterion sy'n berthnasol i'r UE. Nid oes

sôn yn y Canllawiau am raglenni arbennig o'r fath yn y maes newyddion nac am unrhyw gamau i sicrhau eu bod yn briodol o amhleidiol. Y mis hwn, (Ionawr 2016), mewn rhaglen ar Radio 4 am Brexit, rhagwelwyd y byddai'r broses yn achosi anhawster digynsail. Roedd hyn - yng nghyd-destun pleidlais a allai fod yn llai na chwe mis i ffwrdd - yn dangos tuedd gref yn erbyn y ddadl o blaid tynnu allan. Dylai'r Canllawiau gynnwys darpariaethau sy'n atal hyn.

## ATODIAD B - YMATEBION GAN GYRFF (GAN GYNNWYS PLEIDIAU GWLEIDYDDOL)

15 Ionawr 2016

Mae'r cyflwyniad hwn wedi'i baratoi gan:

Uned Adnoddau Seneddol UKIP
Ystafell LG/09
Norman Shaw Building (North)
Palas San Steffan
London SW1A 0AA

### YMATEB I YMGYNGHORIAD Y BBC AR GANLLAWIAU'R REFFERENDWM

Ysgrifennaf i ymateb yn ffurfiol ar ran UKIP ynghylch yr ymgynghoriad ar y canllawiau ar gyfer y refferendwm ar a ddylai'r Deyrnas Unedig aros yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd.

Rydym yn cytuno'n gyffredinol â'r canllawiau arfaethedig, ond fel y maent wedi'u drafftio ar hyn o bryd, nid ydynt yn archwilio'r rhyngweithio tebygol rhwng y darlledwyr a'r ymgyrch 'Gadael', yr ymgyrch 'Aros' a'r pleidiau gwleidyddol. Serch hynny, mae'n fuan eto; nid oes yr un arweinydd gwleidyddol wedi'i benodi eto ar gyfer na'r grŵp 'Aros' na'r grŵp 'Gadael', nid yw'r Comisiwn Etholiadol wedi dynodi'r 'Grŵp Ymgyrchu Arweiniol' eto ar gyfer y naill ochr na'r llall ac nid oes dyddiad eto wedi'i bennu gan y Prif Weinidog ar gyfer y refferendwm. I gymhlethu pethau eto, mae'r ymgyrch 'Gadael' ar hyn o bryd wedi'i rhannu rhwng dau ymgeisydd.

Mae'r posibilrwydd theoretig yn parhau wrth gwrs sef y gallai'r Prif Weinidog arwain yr ymgyrch 'Gadael' ei hun, petai ei negodiadau â'r UE yn aflwyddiannus; - fel y dywedodd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 6 Ionawr 2015: 'Nid wyf yn diystyru dim'.

Ni waeth beth fydd safbwynt yr ymgyrch 'Aros' a'r ymgyrch 'Gadael' ar y refferendwm, credwn y dylai UKIP gael yr un gynrychiolaeth â'r ddwy ohonynt, gan mai hi yw'r unig blaid wleidyddol mewn rhai rhannau o'r Deyrnas Unedig sy'n cynrychioli'r safbwynt 'Gadael'. Ac ystyried y polau ar hyn o bryd, mae'n debygol bod y blaid yn debygol o ennill seddi yn y cynulliadau ym mis Mai.

Hoffem gael sicrwydd gan Ymddiriedolaeth y BBC, er budd 'cydbwysedd cyffredinol', y caiff safbwynt UKIP ar y refferendwm ei gynrychioli yn y ddadl, ni waeth am y safbwyntiau a arddelir gan y ddwy ymgyrch. Ar gyfer UKIP, mae hyn yn fater o gryn bwys, oherwydd mai dyma'r unig blaid wleidyddol sy'n cael ei diffinio gan ei safbwynt ar y Deyrnas Unedig yn aros yn aelod o'r UE. Nodwn eich sylw y caiff y canllawiau eu diwygio, wrth i'r darlun ddod yn fwy clir a byddem yn gwerthfawrogi petaech yn gallu cadw mewn cysylltiad, wrth i faterion ddatblygu.

## ATODIAD B - YMATEBION GAN GYRFF (GAN GYNNWYS PLEIDIAU GWLEIDYDDOL)

Gyda'r ymateb hwn amgaeaf rywfaint o hanes diweddar twf y blaid, er mwyn helpu Ymddiriedolaeth y BBC yn ei hystyriaethau.

### HANES DIWEDDAR

Sefydlwyd UKIP yn blaid wleidyddol yn 1993, gyda'r bwriad penodol o ymgyrchu i sicrhau bod y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mewn blynyddoedd dilynol, mae wedi ehangu ei llwyfan gwleidyddol ac erbyn hyn mae'n ymgyrchu ar ystod eang o faterion, yn lleol, yn genedlaethol a hefyd yn Ewrop. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae wedi perfformio'n gryf mewn isetholiadau seneddol ac etholiadau lleol. Mewn pôl yn 2014 i bapur newydd *The Sun* amlygwyd y ffaith mai UKIP oedd y blaid yr ymddiriedid fwyaf ynddi ynghylch mewnfudo, gyda 43% o bleidleiswyr yn ymddiried ynddi ynghylch y mater, a dim ond 21% yn ymddiried yn y Blaid Geidwadol.[1]

Mae gan UKIP enw cryf iawn am ymgysylltu digidol. Ar hyn o bryd, mae ganddi 518,768 neges @hoffi' ar Facebook (mae gan Lafur 418,459, y Ceidwadwyr 544,220 a'r Democratiaid Rhyddfrydol 129,651). Mae gan UKIP ryw 114,000 o ddilynwyr ar Twitter ac mae gan Arweinydd Plaid UKIP, Nigel Farage 256,000 o ddilynwyr ar yr un platfform cyfryngau cymdeithasol.

Mae UKIP yn ymfalchïo ei bod yn blaid genedlaethol ac mai hi yw'r unig blaid wleidyddol Brydeinig sydd â rhyw ffurf ar gynrychiolaeth etholedig ym *mhob* rhan o'r Deyrnas Unedig. Ar sail y ffigurau diweddaraf sydd ar gael, mae gan y blaid 40,761 o aelodau, cynnydd o ryw 8,000 ers i'r blaid wneud ei chyflwyniad i'r Comisiwn Etholiadol ar 31 Rhagfyr 2013.

Yn ôl adroddiad ym mhapur newydd *The Times* ar 2 Ionawr 2014, gan gynghorwyr UKIP y mae'r hanes presenoldeb gorau o blith holl bleidiau gwleidyddol y Deyrnas Unedig , (UKIP 92.4%; Ceidwadwyr 88.6%; Llafur 88.4%; Democratiaid Rhyddfrydol 87.7% a'r Blaid Werdd 79.6%). Adeg ysgrifennu hyn, mae gan y blaid ar hyn o bryd 484 o gynghorwyr.

Pan safodd UKIP yn ei hetholiadau cyntaf ar gyfer Senedd Ewrop ym mis Mehefin 1994, enillodd gyfanswm o 150,251 o bleidleisiau, gan fethu ag ennill yr un sedd yn senedd Brwsel. Yn yr un etholiadau yn 1999, enillodd y blaid 696,057 o bleidleisiau a sicrhau tair sedd ym Mrwsel.

Safodd 428 o ymgeiswyr yn enw UKIP yn etholiad cyffredinol 2001, gan ennill 390,563 o bleidleisiau, ond dim seddi. O ran ei chyfran o'r bleidlais, daeth yn bumed. Yn etholiadau Ewrop a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2004, daeth UKIP yn drydydd, gan ennill 2,650,768 o bleidleisiau a 12 o seddi.

Yn yr etholiad cyffredinol a gynhaliwyd ar 5 Mai 2005, enillodd y blaid 605,973 o bleidleisiau, ond dim seddi. Yn etholiadau Ewrop a gynhaliwyd ar 4 Mehefin 2009, enillodd UKIP 13 o seddi, gan ddod yn ail i'r Ceidwadwyr, gyda 2,498,226 o bleidleisiau.

[1] *The Sun* 9 Medi 2014

## ATODIAD B - YMATEBION GAN GYRFF (GAN GYNNWYS PLEIDIAU GWLEIDYDDOL)

Safodd cyfanswm o 572 o ymgeiswyr yn enw UKIP yn etholiad cyffredinol 2010 gan ddenu cyfanswm o 919,471 o bleidleisiau, ond unwaith eto, nid enillodd ddim seddi. Yn yr etholiadau lleol a gynhaliwyd yng Nghymru a Lloegr ar 2 Mai 2013, safodd 1,700 o ymgeiswyr yn enwi UKIP, gan ennill cyfanswm 147 o gynghorwyr a denu ar gyfartaledd 25% o'r bleidlais yn y wardiau lle safodd.

Yn ôl papur newydd The Guardian roedd perfformiad UKIP ym mis Mai 2013 yn dangos yr ymchwydd mwyaf i bedwaredd blaid yng ngwleidyddiaeth Prydain ers yr Ail Ryfel Byd. Gellir gweld twf daearyddol y blaid yn Atodiad A ac Atodiad B.

Yn etholiadau Ewrop ar 22 Mai 2014, daeth UKIP ar frig y bleidlais gyda 4,376,635 o bleidleisiau ac am y tro cyntaf ers etholiad cyffredinol 1906, ni wnaeth y Blaid Lafur na'r Ceidwadwyr ennill etholiad cenedlaethol.

Cynyddodd pleidlais y blaid 5% yn yr Alban, 12% yn rhanbarth Gogledd-orllewin Lloegr, 14% yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr, 14% yn Swydd Efrog a'r Humber, 15% yng Nghymru, 10% yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr, 16% yn Nwyrain Canolbarth Lloegr, 10% yn Ne-orllewin Lloegr, 13% yng Ne-ddwyrain Lloegr, 6% yn Llundain a 15% yn Rhanbarth Dwyrain Lloegr.[2] Roedd gan UKIP 24 o ASEau etholedig (gan gynnwys un yn yr Alban), ei nifer fwyaf hyd yn hyn. Ar hyn o bryd, mae gan y blaid 22 ASE.

Yn etholiad cyffredinol mis Mai 2015, safodd 624 o ymgeiswyr (o blith 650 o sedd) ac ennill 3,881,099 o bleidleisiau, gan ennill un sedd yn unig (Clacton). Serch hynny, sicrhaodd y blaid bedair gwaith yn fwy o'r gyfran o'r bleidlais na'r tro cynt, gan ennill 14 y cant yn Lloegr ( a 12.6 y cant ar draws y Deyrnas Unedig). Gorffennodd UKIP yn ail mewn 120 o seddi gan ennill cyfran o dros 20 y cant o'r bleidlais mewn 45 o seddi. Roedd cyfanswm ei phleidlais yn fwy na phleidlais Plaid Genedlaethol yr Alban, a'r Democratiaid Rhyddfrydol gyda'i gilydd. Cyfanswm nifer y seddi a enillwyd gan y pleidiau hynny oedd 64 - ac un gafodd UKIP.

Ar yr un diwrnod, enillodd y blaid 202 o seddi ar gynghorau ac ysgwyddo'r rheolaeth dros Gyngor Dosbarth Thanet. Ar y pwynt hwnnw, roedd gan UKIP 494 o seddi o blith cyfanswm o 19,385 o seddi ar gynghorau Lloegr (ac eithrio Dinas Llundain). Er mai dim ond un AS a ddychwelodd UKIP i San Steffan ym mis Mai 2015, canlyniad anallu'r system etholiadol ' y cyntaf heibio i'r postyn' oedd hyn i ddelio â'r ffaith fod gan y Deyrnas Unedig bellach dirwedd wleidyddol amlbleidiol, yn hytrach na dim ond y ddwy brif blaid y cafodd ei chynllunio ar ei chyfer.

Dylid nodi bod gan UKIP dri arglwydd yn Nhŷ'r Arglwyddi. Serch hynny, petai'r Prif Weinidog David Cameron wedi anrhydeddu'r addewid a wnaeth yng 'Nghytundeb Clymblaid 2010' sef: y penodir Arglwyddi gyda'r amcan o greu ail siambr sy'n adlewyrchu cyfran o'r bleidlais a sicrheir gan y pleidiau gwleidyddol yn yr etholiad cyffredinol diwethaf - byddai gan UKIP yn awr sawl dwsin o arglwyddi yn yr uwch dŷ.

Mae rhagor o dystiolaeth o'r gefnogaeth gynyddol i UKIP i'w gweld yn y newid yng nghyfran ei phleidlais dros y 15 mlynedd diwethaf:

---

[2] http://www.politics.co.uk/comment-analysis/2014/05/26/european-elections-2014-results-breakdown

## ATODIAD B - YMATEBION GAN GYRFF (GAN GYNNWYS PLEIDIAU GWLEIDYDDOL)

Etholiadau Ewro 1999 7%.
Etholiad Cyffredinol 2001 1.5% (heb golli ernes mewn un sedd).
Etholiadau Ewro 2004 16%.
Etholiad Cyffredinol 2005 2.3% (heb golli ernes mewn 38 sedd).
Etholiadau Ewro 2009: 16.5%
Etholiad Cyffredinol 2010: 3.1% (heb golli ernes mewn 100 sedd).
Etholiadau lleol 2013: ennill 147 o seddi ar draws 35 o gynghorau yng Nghymru a Lloegr.
Etholiadau Ewro 2014: 27.49%
etholiadau lleol 2014: ennill 155 o seddi ar gynghorau
Etholiad Cyffredinol 2015: 12.6% (1 sedd, colli 79 ernes, yn ail mewn 120 o seddi).
Etholiadau lleol 2015: ennill 202 o seddi ar gynghorau

### LLOEGR

Yn etholiad cyffredinol 2010, enillodd UKIP 866,633 o bleidleisiau yn Lloegr, ond ni etholwyd yr un cynrychiolydd. Yn etholiad Ewropeaidd Mai 2014, daeth y blaid ar frig y bleidlais yn Lloegr, gan ennill 4,009,534 o bleidleisiau, (Llafur 3,466,095, Ceidwadwyr 3,429,333, Gwyrddion 1, 1,103,395 a'r Democratiaid Rhyddfrydol 963,383).

Yn etholiad cyffredinol 2015, enillodd UKIP 3,611,367 o bleidleisiau yn Lloegr (14.1%). Roedd hyn yn fwy na'r Democratiaid Rhyddfrydol a'r Gwyrddion gyda'i gilydd. Er iddi ennill y drydedd gyfran uchaf o'r bleidlais, oherwydd cymhlethdodau'r system etholiadau cyntaf heibio i'r postyn, arweiniodd hyn at ddim ond un sedd yn San Steffan. Mae 2,2,60 o seddi cynghorau ar gael i'w hennill yn yr etholiad yn Lloegr ar 5 Mai 2016 a bydd gan UKIP o leiaf 1,500 o ymgeiswyr yn sefyll yn ei henw.

### GOGLEDD IWERDDON

Ar 22 Mai 2014, cafodd UKIP 24,584 o bleidleisiau yn etholiadau Ewrop yng Ngogledd Iwerddon. Ar yr un diwrnod, enillodd UKIP 163 o seddi ar gynghorau, tri o'r rheini yn Armagh, Banbridge a Craigavon, Canol a Dwyrain Antrim a Newry, a Mourne a Down yng Ngogledd Iwerddon. Mae gan y blaid hefyd Aelod ar Gynulliad Deddfwriaethol Gogledd Iwerddon yn Stormont er 2012. Mae gan y Cynulliad 108 o aelodau etholedig - chwech o bob un o'r 18 etholaeth,. Ym mis Mai 2016, bydd gan UKIP o leiaf un ymgeisydd yn sefyll ym mhob un o'r 18 etholaeth.

### YR ALBAN

Yn etholiad Senedd yr Alban 2011, enillodd UKIP 18,138 o bleidleisiau. Yn etholiadau Ewrop yn 2014, cafodd UKIP 140,534 o bleidleisiau yn yr Alban ac am y tro cyntaf, anfonodd ASE UKIP o'r Alban i Frwsel. Yn etholiad cyffredinol 2015, enillodd UKIP 47,078 o bleidleisiau (1.62%).

Ym mis Mai 2016, bydd gan y blaid bedwar ymgeisydd fan leiaf yn sefyll ym mhob un o'r wyth rhestr ranbarthol yn etholiad Senedd yr Alban.

## ATODIAD B - YMATEBION GAN GYRFF (GAN GYNNWYS PLEIDIAU GWLEIDYDDOL)

### CYMRU

Yn etholiadau Cynulliad Cymru 2007, cafodd UKIP 38,490 o bleidleisiau. Yn etholiad cyffredinol Mai 2010, enillodd 35,690 o bleidleisiau. Yn etholiadau Cynulliad Cymru 2011, cafodd y blaid 43,756 o bleidleisiau. Yn etholiadau Ewrop Mai 2014, cafodd y blaid 201,983 o bleidleisiau ac etholwyd ASE UKIP i Gymru. Roedd yn beth eithaf anghyffredin gweld y blaid yn cynyddu ei phleidlais rhwng yr etholiad hwnnw ac etholiad cyffredinol Mai 2015, ddeuddeg mis wedyn, lle yr enillodd 204,330 o bleidleisiau (13.6%). Bydd gan UKIP lechen lawn o 60 o ymgeiswyr yn etholiad Cynulliad Cymru ar 5 Mai 2016, a chan fod system bleidleisio gyfrannol yn cael ei defnyddio, byddai'n sicr yn disgwyl gweld ymgeiswyr yn cael eu hethol i Gynulliad Cymru.

### LLUNDAIN

Yn ddiweddar, mae cyfran UKIP o'r bleidlais yn Llundain wedi codi o 43,274 (2%) yn etholiad Awdurdod Llundain fwyaf yn 2012; 371,133 (7%) yn etholiad Ewrop Mai 2014 a 286,981 (8.1%) yn etholiad cyffredinol 2015. O'i gymharu, yn yr etholiad diweddaraf o'r rhain, cafodd y Democratiaid Rhyddfrydol 272,544 o bleidleisiau yn Llundain a'r Gwyrddion 171,652). Adeg ysgrifennu hyn, mae gan Lundain un ASE UKIP.

Bydd gan UKIP lechen lawn o 25 o ymgeiswyr yn etholiadau Cynulliad Llundain Fwyaf a gynhelir ar 5 Mai 2016, yn ogystal ag ymgeisydd am swydd Maer Llundain. Ac ystyried y system bleidleisio gyfrannol a ddefnyddir ar gyfer etholiad Cynulliad Llundain Fwyaf, byddem yn disgwyl gweld aelodau o UKIP yn cael eu hethol i Gynulliad Llundain.

### CRYNODEB

Enillodd UKIP etholiad Ewrop 2014 yn y Deyrnas Unedig a daeth yn drydydd o ran cyfran y bleidlais yn etholiad cyffredinol 2015. Gyda'r dirywiad radical ymhlith y Democratiaid Rhyddfrydol a'r cynnydd yr un mor ddramatig ymhlith Plaid Genedlaethol yr Alban, yn y cyfnod 2010-15, gellir dweud bod tirwedd wleidyddol y Deyrnas Unedig wedi newid o'i chwr. Ym mhôl piniwn YouGov yn y Deyrnas Unedig ar gyfer *The Times* ar 17 Rhagfyr 2015, roedd UKIP ar 17%.[3]

Ym mis Mai 2016, bydd gan UKIP ymgeiswyr yn etholiadau Maer Llundain a Chynulliad Llundain Fwyaf, etholiadau Senedd yr Alban, etholiadau Cynulliad Gogledd Iwerddon, Etholiadau Cynulliad Cymru, etholiadau meiri eraill, etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, yn ogystal â'r seddi arferol yn etholiadau'r cynghorau, fel rhan o'r cylch etholiadau tair, pedair blynedd neu'r etholiad ar gyfer 'pawb'.

At hynny, bydd UKIP hefyd yn chwarae rhan bwysig yn y refferendwm ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd, y mae'r Prif Weinidog David Cameron wedi dweud y'i cynhelir rywbryd cyn diwedd 2017.

---

[3] http://d25d2506sfb94s.cloudfront.net/cumulus_uploads/document/pw2zwai9dn/Times_Results_151218-Website.pdf

**ATODIAD B - YMATEBION GAN GYRFF (GAN GYNNWYS PLEIDIAU GWLEIDYDDOL)**

## ATODIAD B - YMATEBION GAN GYRFF (GAN GYNNWYS PLEIDIAU GWLEIDYDDOL)

**Ymateb i'r Canllawiau Drafft ar Refferendwm yr UE**

**Plaid Unoliaethol Ulster**

**Canllawiau Drafft y BBC ar gyfer Ymgyrch y Refferendwm ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd.**

Mae Plaid Unoliaethol Ulster yn croesawu'r Canllawiau hyn.

Mae'n amlwg yn hollbwysig mewn unrhyw refferendwm lle mae dwy ochr wrthwynebus, bod y BBC, fel Darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, yn sicrhau bod cydbwysedd cywir rhwng y ddwy ochr.

Mae'r canllawiau drafft yn cyfeirio at yr angen i sicrhau 'cydbwysedd cyffredinol' a dangos 'amhleidioldeb dyladwy' o ran sylw ac rydym yn credu eu bod yn cynrychioli ymgais ddilys i gyflawni ymrwymiad y BBC i roi sylw i faterion gwleidyddol yn gywir ac yn deg.

Swyddog y Wasg a Pholisi Unoliaethwyr Ulster

Ystafell 2014 Parliament Buildings
Stormont
Belfast
BT4 3XX

# Pleidleisiwch i Adael/Vote Leave

Ymgynghoriad ynghylch Canllawiau Refferendwm yr UE

Uned Ymddiriedolaeth y BBC
180 Great Portland Street
Llundain
W1W 5QZ
eureferendum.guidelines@bbc.co

14 Ionawr 2016

Annwyl Syr/Fadam

Isod, rhoddir ein cyflwyniad i ymgynghoriad Ymddiriedolaeth y BBC ar y canllawiau drafft ar gyfer rhoi sylw i'r refferendwm ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd.

Yn gywir,

Westminster Tower
3 Albert Embankment
Llundain SEI?SP

020 7952 5454
info@voteleave.uk
www.voteleavetakecontrol.org
0voteleave
O @vote_leave

Cwmni Cyfyngedig drwy Warant yn Lloegr yw Vote Leave
Rhif 09785255

## Cwestiynau y mae Ymddiriedolaeth y BBC yn gofyn am ymateb iddynt

**A yw'r Canllawiau arfaethedig ar gyfer Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd yn ymddangos yn**

**berthnasol ac yn briodol ar gyfer y refferendwm hwn? Os nad ydynt, esboniwch pam?**

Mae'r canllawiau hyn, yn gyffredinol, yn berthnasol ac yn briodol ar gyfer y refferendwm hwn. Yn unol â'r Cytundeb rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon a'r BBC, [1] rhaid i'r BBC wneud popeth yn ei gallu i sicrhau bod pynciau dadleuol yn cael eu trin yn ddyladwy o gywir ac amhleidiol ym mhob allbwn perthnasol.[1] Nodwn mai casgliad y panel annibynnol a gadeiriwyd gan yr Arglwydd Wilson o Denton yn 2005 oedd bod sylwedd i'r pryder bod sylw'r BBC yn dioddef o ffurfiau penodol ar ogwydd diwylliannol ac anfwriadol ar fater yr UE.[2]

Fel mae'r canllawiau drafft yn ei gydnabod, bydd sylw'r BBC a sylw darlledwyr eraill yn destun craffu dwys gan y cyhoedd yn ystod y refferendwm hwn. Mae gennym bob ymddiriedaeth y bydd y BBC yn cyflawni ei dyletswyddau i dalwyr ffi'r drwydded ac rydym yn croesawu'r canllawiau drafft sy'n dangos bod y BBC yn benderfynol o roi sylw i'r refferendwm[1] gyda chywirdeb ac amhleidioldeb dyladwy.

Mae'n ganmoladwy bod y canllawiau'n mynnu na ddylai'r ffordd y caiff iaith ei defnyddio gyfleu'n anfwriadol ystyr y gellid ei ddehongli fel petai'n ffafrio'r naill ochr neu'r llall. Mae'r canllawiau i bob golwg yn sicrhau, er enghraifft, na fydd y BBC wrth roi sylw i'r refferendwm, yn cymylu'r ystyr rhwng 'Ewrop' a'r 'Undeb Ewropeaidd'. Ar y pwynt hwn, tawelwyd ein meddwl yn benodol gan yr atebion a roddwyd gan y BBC i Bwyllgor Craffu Ewrop ym mis Hydref 2015.[3] Serch hynny, rydym yn poeni nad yw'r ymrwymiadau clir hyn yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol, gan fod newyddiadurwyr y BBC yn cymylu'r termau dro ar ôl tro mewn darllediadau diweddar fel y gwnaethant yn ystod y ddadl am yr ewro.

Rydym hefyd yn croesawu'r ymrwymiad i ystyried 'natur yr ymchwil neu'r polau a ddyfynnir' a'r gofyniad i 'beidio â dibynnu ar y dehongliad a roddir i ganlyniadau pôl gan y corff neu'r cyhoeddiad a'i comisiynodd'. Bydd hyn yn arbennig o bwysig yn achos polau busnes, lle mae ymgyrchwyr sydd o blaid yr euro ac o blaid yr UE wedi honni'n draddodiadol (yn wallus) fod arolygon ymhlith cwmnïau amlwladol mawr yn cynrychioli busnesau Prydain i gyd.

Un o'r problemau mwyaf i'r BBC, ac yn benodol i The Today Programme, yn y ddadl am yr ewro cyn 2003, oedd yr arfer o roi penaethiaid cwmnïau amlwladol wyneb yn wyneb ag ASau'r meinciau cefn, neu ffigurau gwleidyddol ymylol. Roedd hyn yn rhoi'r argraff gwbl ffug fod y rhan fwyaf o bobl fusnes yn awyddus i gael gwared ar y bunt sterling. Mae'n hanfodol yn ystod ymgyrch y refferendwm na chaiff hyn ei ailadrodd. Yn gyffredinol, dylai pobl fusnes gael eu cyfweld gyda phobl fusnes eraill, a gwleidyddion gyda gwleidyddion eraill.

Mae'n debygol y bydd y Sefydliad yn cefnogi'n gryf y statws quo yn y refferendwm hwn. Felly, rhaid i amhleidioldeb olygu nad oes gofyn i enwau adnabyddus o anghenraid gael eu rhoi yn erbyn ei gilydd. Dylai'r BBC fod yn barod i roi perchennog menter fach a chanolig ei maint yn erbyn pennaeth cwmni amlwladol. NI ddylid ychwaith, er enghraifft roi triniaeth annyladwy o ffafriol i gyn Weinidogion y Cabinet mewn un ymgyrch os nad yw'r sawl sy'n llenwi swydd debyg mewn ymgyrch arall wedi gwasanaethu yn y Llywodraeth.

**A ydych yn teimlo bod unrhyw beth wedi'i hepgor o'r Canllawiau?**

Mae'r datganiad yn y canllawiau drafft y gall y BBC ddisgwyl cael ei dal yn atebol am eu rhoi ar waith yn ystod yr ymgyrch i'w groesawu. Byddem yn gwerthfawrogi eglurhad am y mecanwaith (os o gwbl) sydd gan y BBC ar waith i sicrhau bod y canllawiau'n cael eu dilyn. Yn benodol, bydd ymgyrchwyr am wybod y bydd gan y BBC system i ddatrys yn ddiymdroi unrhyw gwynion nad yw'r canllawiau'n cael eu dilyn. Bydd hyn yn arbennig o bwysig yn wythnosau a dyddiau olaf yr ymgyrch.

Rydym yn nodi bod adroddiad yr Arglwydd Wilson o Denton wedi casglu bod angen i'r BBC sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i fonitro amhleidioldeb.[4] Byddem yn gwerthfawrogi eglurhad am ba weithdrefnau sydd gan y BBC ar waith (os oes ganddi rai o gwbl) i sicrhau bod cydymffurfio â'r canllawiau drafft yn cael ei fonitro'n ddigonol yn ystod ymgyrch y refferendwm. Ym mis Hydref 2015, dywedodd y BBC wrth y Pwyllgor Craffu Ewropeaidd ei bod yn anfodlon rhoi ar waith unrhyw fonitro meintiol ar ei sylw i'r refferendwm yn ystod yr ymgyrch.[5]

Rydym yn cytuno, mewn egwyddor, bod sicrhau sylw cytbwys yn golygu dod o hyd i "gydbwysedd cyffredinol" rhwng y dadleuon ac nid o reidrwydd rhwng y Grwpiau Ymgyrchu dynodedig. Serch hynny, nid yw'r canllawiau drafft yn rhoi digon o sylw i'r ffaith y bydd corff dynodedig wedi'i bennu gan y Comisiwn Etholiadol i gynrychioli i'r graddau mwyaf y rheini sy'n ymgyrchu o blaid canlyniad [penodol][6] Credwn y dylai'r canllawiau roi ar waith yn benodol bolisi'r ddeddfwriaeth ar y refferendwm a basiwyd gan y Senedd, sef mai cyrff dynodedig yw prif gynrychiolwyr y rheini sy'n ymgyrchu o blaid canlyniad penodol.[7] Rydym yn croesawu'r ymrwymiad ar wahân gan y BBC i gynnal cyfarfodydd misol â'r ymgyrchoedd arweiniol dynodedig.[8] Serch hynny, credwn y dylai'r canllawiau gydnabod yn benodol uchafiaeth y cyrff dynodedig yn ymgyrch y refferendwm.

Rhaid cael gofyniad hefyd i sicrhau cydbwysedd yn y sylw a roddir i gyfranogwyr a ganiateir ar y naill ochr a'r llall. Mae'n hynod debygol y bydd rhagor o gyfranogwyr a ganiateir yn cofrestru i ymgyrchu i aros yn yr UE nag a fydd o blaid gadael.[9] Ni ddylai cyfanswm y sylw a roddir i gyfranogwyr a ganiateir sy'n ymgyrchu o blaid 'aros' felly fod yn fwy na chyfanswm y sylw a roddir i gyfranogwyr a ganiateir sy'n ymgyrchu i 'adael'. Byddai'n gwbl amhriodol, er enghraifft, petai'r BBC, wrth ddynesu at y refferendwm, yn darlledu cyfweliadau sy'n crybwyll yr UE gydag arweinyddion y prif bleidiau petaent i gyd yn cefnogi pleidlais o blaid 'aros'.

Yn yr un modd, mae mwyafrif Gweinidogion y Cabinet yn debygol o gefnogi 'aros'. Ni ddylai hyn olygu bod mwy o amser ar yr awyr yn cael ei roi i'r ymgyrch 'aros' nag i'r ymgyrch 'gadael'. Yn ystod ymgyrch y refferendwm, nid oes mwy o arwyddocâd i lais un o Weinidogion y Cabinet nag i lais AS ar y meinciau cefn neu lefarydd o bencadlys yr ymgyrch. Refferendwm lle bydd pleidlais pawb yn gydradd fydd hon, sy'n wahanol i etholiad cyffredinol lle bydd Gweinidogion tybiedig y Cabinet yn rhoi ystod o bolisïau eu plaid ar waith. Bydd angen i'r BBC sicrhau nad oes gogwydd o blaid derbyn llefarwyr sy'n enwau adnabyddus yn unig. Neu, bydd y sylw'n dangos gogwydd tuag at yr ymgyrch 'aros'.

Rydym yn amheus hefyd ynghylch rhoi'r canllawiau drafft ar waith am y cyfnod penodedig yn unig. Mae'r canllawiau drafft yn dweud eu bod i'w rhoi ar waith yn ystod 'Cyfnod ffurfiol y Refferendwm'. O dan delerau Deddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015, y Llywodraeth sydd i bennu cyfnod y refferendwm, ond rhaid iddo fod yn ddeg wythnos o leiaf.[10] Mae hyn yn golygu petai'r Llywodraeth, er enghraifft, yn cyhoeddi mai dyddiad y refferendwm fydd 30 Mehefin 2016, ar ôl cyfarfod Cyngor Ewrop ar 18-19 Chwefror, gallai mwy na chwech wythnos o ymgyrchu fynd heibio cyn i'r canllawiau gael eu rhoi ar waith.

Fan hwyraf, rhaid i'r canllawiau ychwanegol i olygyddion fod yn berthnasol cyn gynted ag y caiff y grwpiau ymgyrchu arweiniol eu dynodi gan y Comisiwn Etholiadol. Yn ystod hynt y ddeddfwriaeth, rhoddodd y Llywodraeth ymrwymiad clir i'r Senedd na fyddai'r broses ddynodi'n gorgyffwrdd â'r ymgyrch ffurfiol.[11] Mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu i'r Llywodraeth ddechrau'r broses ddynodi cyn cyhoeddi dyddiad y refferendwm.[12] Byddai'n amheus iawn pe na bai gofyn i olygyddion adlewyrchu'r ffaith bod y Comisiwn Etholiadol wedi dynodi cyrff arweiniol cyn gynted ag y caiff y penderfyniad ei wneud.

**A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am y Canllawiau arfaethedig?**

Rydym yn croesawu'r datganiad yn y canllawiau drafft y dylid ystyried unrhyw un sy'n ymgyrchu'n weithredol neu arddel safbwynt cyhoeddus ar y refferendwm yn yr un modd ag yr ystyrir "gwleidyddion". Mae hyn yn arbennig o synhwyrol yng ngoleuni'r ffaith bod rhai sefydliadau sydd o blaid yr UE, megis Conffederasiwn Diwydiant Prydain, yn debygol o honni eu bod yn anwleidyddol. Serch hynny, rydym yn nodi yn yr adran ynglŷn â chyfeirio gorfodol, fod y diffiniad o wleidyddion yn cynnwys unrhyw un sy'n ymgyrchu yn y refferendwm ac unrhyw "ymgyrchydd cofrestredig"'. Rydym yn holi pam nad yw'r diffiniad o 'wleidyddion' yn gyson drwy'r canllawiau drafft.

Mae gennym gwestiynau hefyd am y rhyngweithio rhwng y canllawiau drafft hyn a'r canllawiau drafft ar gyfer etholiadau. Mae'r canllawiau drafft ar gyfer y refferendwm yn dweud nad oes gofyn cael cydbwysedd rhwng y pleidiau wrth drafod materion y refferendwm. Serch hynny, mae'r canllawiau drafft ar gyfer etholiadau Mai 2016 yn dweud ei bod yn rhaid i'r BBC sicrhau bod y pleidiau... yn cael sylw cymesur dros gyfnod priodol.[13]

Mae'n amheus a oes modd cyflawni'r dyletswyddau hyn sy'n groes i'w gilydd, oherwydd, fel sy'n debygol, y bydd cyfnod y refferendwm yn gorgyffwrdd â'r ymgyrchoedd ar gyfer etholiadau ym mis Mai 2016. Mae'r canllawiau drafft ar gyfer y refferendwm yn creu darlun o gyfranwyr yn cael eu tawelu ar ganol brawddeg os digwydd iddynt gyfeirio at y refferendwm mewn cyfnod sydd heb ei ddyrannu i'r pwnc. Byddai'n beth da cael rhagor o eglurhad am sut y byddai cyfnodau ymgyrchu sy'n gorgyffwrdd â'i gilydd yn gweithio'n ymarferol.

Mae'n nodedig hefyd mai'r sawl a oedd yn gyfrifol am y strategaeth gyfryngau ar gyfer cyhoeddi'r canllawiau hyn oedd James McGrory, sydd bellach yn Bennaeth Cyfathrebu ac yn Brif Lefarydd Ymgyrch BSE (Prydain yn Gryfach yn Ewrop). Byddem felly'n croesawu sicrwydd nad oes dim gwrthdaro rhwng buddiannau ac nad yw wedi elwa yn ei swydd newydd o unrhyw wybodaeth fewnol ers ei gyfnod yn y BBC.

---

1 Yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon, ' Cytundeb Rhwng Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon Ei Mawrhydi a'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig', Cm 6872, (Gorffennaf 2006), t. 20, cymal 44(1).

2 Adroddiad Panel Annibynnol, ' Sylw Newyddion y BBC i'r Undeb Ewropeaidd', (Ionawr 2005), t. 3 <http://downloads.bbc.co.uk/bbctrust/assets/fl les/pdf/our_work/govs/ind ependentpaneIreport.pdf>.

3 Pwyllgor Craffu Ewropeaidd, 'Craffu ar yr UE, ymchwiliad dilynol', HC 540, (20 Hydref 2015), 03 <http://data.parliament.uk/writtenevidenee/committeeevidence.*svd* evidencedocument/european-scrutiny-committee/eu-scrutiny-fo11ow up/ora1/23350.html>.

4 Adroddiad Panel Annibynnol, 'Sylw Newyddion y BBC i'r Undeb Ewropeaidd', (Ionawr 2005), p. 5 <http://downloads.bbc.co.uk/bbctrust/assets/flles/pdf/our_work!govs/independentpanelreport.pdf>.

5 3Pwyllgor Craffu Ewropeaidd, 'Craffu ar yr UE, ymchwiliad dilynol', HC 540, (20 October 2015), QQ 47-51 <http://data.parliament.uk/writtenevidenee/committeeevidence.svc/evidencedocument/european-scrutiny-committee/eu-scrutiny-fo11ow up/ora1/23350.html>.

6 Deddf y Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, a. 109(5).

6 Deddf y Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, aa. 108-110, atodlen 12. Mae polisi Deddf 2000 i fod yn berthnasol i ddarlledwyr, er enghraifft, drwy adran 127(1) o'r Ddeddf honno, sy'n darparu na chaiff darlledwr gynnwys yn ei wasanaethau darlledu unrhyw ddarllediad ynghylch yr ymgyrch ar gyfer y refferendwm ar ran unrhyw un neu gorff ar wahân i'r un a ddynodwyd gyda golwg ar y refferendwm dan sylw.

8 Pwyllgor Craffu Ewropeaidd, 'Craffu ar yr UE, ymchwiliad dilynol', HC 540, (20 Hydref 2015), 05 <http://data.parliament.uk/writtenevidenee/committeeevidence.svc/evidencedocument/european-scrutiny-committee/eu-scrutiny-fo11ow up/ora1/23350.html>.

9 Mae hyn yng ngoleuni'r ffaith bod y Blaid Lafur, y Democratiaid Rhyddfrydol, Plaid Genedlaethol yr Alban, y Blaid Werdd a'r CBI yn debygol o ymgyrchu o blaid 'aros', ac mai dim ond Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig sy'n debygol o ymgyrchu o blaid 'gadael'. Gellid dadlau bod y Blaid Geidwadol yn niwtral.

10 Deddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015, atodlen 1, para 1 <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2015/36/schedule/1/paragraph/1/enacted>; cf. Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, a. 102(3).

11 HC Deb, 7 Medi 2015, col. 157 <http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201516/cmhansrd/cm 150907/debtext/150907-0004.htm>.

10 Deddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015, atodlen 1, para 1 <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2015/36/schedule/1/paragraph/1/enacted>.

13 BBC, 'Canllawiau Drafft ar gyfer Etholiad 2016', (20 Tachwedd 2015), t. 6 <http://downIoads.bbc.co.uk/bbctrust/assets/fl les/pdf/our_work/election_guide lines/2016/draft_election_guide lines.pdf>.